**PRIFYSGOL BANGOR**

**Trwydded i Feddiannu i'r Rhai Dan 18 Oed**

Mae'r drwydded hon yn ddyddiedig: Y dyddiad y byddwch yn derbyn eich Cytundeb Preswylio yn electronig ac y byddwch yn cael e-bost gan dîm Swyddfa'r Neuaddau yn cadarnhau eich bod wedi derbyn eich Cytundeb Preswylio.

**Partïon**

(1) Landlord: Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd.

(2) LL572DG elusen gofrestredig rhif 1141565

(3) Enw'r Myfyriwr: Yn unol â'r hyn sydd yn yr adran "Cytundeb Preswylio" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor;

(4) Cyfeiriad: Yn unol â'r hyn sydd yn yr adran "Eich Llety" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor.

**Telerau a gytunwyd.**

**1. Dehongli**

Mae'r diffiniadau a'r rheolau dehongli canlynol yn berthnasol yn y cytundeb hwn.

1.1 Diffiniadau:

**2** **Adeilad**, os yw'r Eiddo yn fflat, yw'r adeilad neu'r bloc o fflatiau lle mae'r Eiddo wedi'i leoli.

**3** **Mannau Cyffredin** yw'r rhannau hynny o'r adeilad nad ydynt yn cael eu gosod i berson arall ac sy'n cael eu defnyddio gan y Trwyddedai yn gyffredin ag eraill. Gall y mannau hynny gynnwys llwybrau, cynteddau, rhodfeydd, grisiau a choridorau, unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan y Trwyddedwr (e.e. lolfeydd, cyfleusterau golchi dillad) gerddi, meysydd parcio cymunedol a thebyg;

**4** **Cynnwys**: y dodrefn, y deunyddiau ac unrhyw eitemau eraill a ddarperir gan y Trwyddedwr ac y maent wedi eu rhestru yn y rhestr eiddo.

**5** Y **Ffi Trwyddedu** yw'r cyfanswm sy'n daladwy o dan y Drwydded hon ar gyfer meddiannu'r Eiddo a all amrywio o bryd i'w gilydd yn unol â'r Drwydded hon.

**6** **Cyfnod y Drwydded** yw'r cyfnod o ddyddiad y Drwydded hon hyd at y Dyddiad Terfynu.

7 **Contract Meddiannaeth** yw contract meddiannaeth o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) y gellir ei ddarparu gan Brifysgol Bangor i'r Trwyddedai dan gymal 5.3.

8 **Eiddo** yw "yr hyn y dangosir yn yr adran "Eich Llety" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor".

9 **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)** yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r holl Reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno.

10 Y **Dyddiad Terfynu** yw'r dyddiad cyn diwrnod pen-blwydd y Trwyddedai yn 18 oed.

10.1 Ni fydd penawdau cymalau yn effeithio ar ddehongliad y cytundeb hwn.

10.2 Mae cyfeiriadau at gymalau yn gyfeiriadau at gymalau'r cytundeb hwn.

10.3 Mae diffiniad **person** yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforedig (boed â phersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio) a chynrychiolwyr personol y person hwnnw, ei olynwyr a'r rhai a neilltuir ganddo.

10.4 Oni fydd y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol.

10.5 Mae cyfeiriad at **ysgrifennu** neu **ysgrifenedig** yn cynnwys e-bost.

10.6 Mae unrhyw rwymedigaeth ar barti i beidio â gwneud rhywbeth yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chaniatáu i'r peth hynny gael ei wneud.

**2. Trwydded i feddiannu.**

2.1 Mae Prifysgol Bangor yn caniatáu i'r Trwyddedai feddiannu'r Eiddo a defnyddio'r Mannau Cyffredin (os oes rhai) a'r Cynnwys (os oes rhai) ar gyfer llety preswyl yn ystod Cyfnod y Drwydded yn unig.

2.2 **Talu Rhent:** Rhaid i'r Trwyddedai dalu'r Ffi Trwyddedu/Rhent, oni bai eich bod yn derbyn un o'r cynlluniau talu a gynigir gan y landlord ar borth Prifysgol Bangor cyn y dyddiad meddiannu. Mae'r rhent yn daladwy ymlaen llaw am gyfnod cyfan eich preswyliad dan y drwydded hon. Os byddwch yn derbyn un o'r cynlluniau talu hynny, mae'n rhaid i chi dalu'r rhent yn unol â thelerau'r cynllun talu perthnasol. Gall y landlord (ond nid oes rheidrwydd arno) ddarparu strwythurau talu amgen. Gellir cael rhagor o wybodaeth trwy gysylltu â Swyddfa'r Neuaddau. Rhoddir unrhyw strwythurau talu eraill fel consesiynau nad ydynt yn rhwymo'r landlord yn gyfreithiol ac na fyddant yn amrywiad o'r drwydded hon nac yn effeithio ar hawliau'r landlord dan y drwydded hon.

2.3 Cyfanswm y Ffi Trwyddedu ar ddechrau'r Drwydded hon yw: Yn unol â'r hyn sydd yn yr adran "Eich Ffioedd Neuaddau" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor.

2.4 Gall Prifysgol Bangor gynyddu'r Ffi Trwyddedu ar unrhyw adeg drwy roi dim llai na phedair wythnos o rybudd ysgrifenedig i chi sy'n nodi'r Ffi Trwyddedu newydd a'r dyddiad y mae'n daladwy ohono.

2.5 Mae'r Trwyddedai'n cydnabod:

(a) bydd y Trwyddedai yn meddiannu'r Eiddo fel trwyddedai ac na chrëir unrhyw berthynas landlord a thenant rhwng Prifysgol Bangor a'r Trwyddedai trwy'r cytundeb hwn.

(b) Prifysgol Bangor sy'n cadw rheolaeth, meddiant a goruchwyliaeth dros yr Eiddo.

(c) mae'r Drwydded hon yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni ellir ei throsglwyddo mewn unrhyw ffordd i berson neu bobl eraill.

(d) nid yw'r Drwydded yn gontract meddiannaeth o dan Adran 7 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) oherwydd bod y Trwyddedai o dan 18 oed. Nid yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn berthnasol i'r Drwydded hon.

## 3. Rhwymedigaethau'r trwyddedai

3.1 Mae'r Trwyddedai'n cytuno â Phrifysgol Bangor i wneud y canlynol:

(a) preswylio yn yr Eiddo ar eu pen eu hunain.

(b) defnyddio'r Eiddo dim ond fel annedd breifat i'r Trwyddedai ei feddiannu.

(c) cadw'r Eiddo a'r Cynnwys yn lân ac mewn cyflwr da.

(d) os achosir difrod i'r Mannau Cyffredin bydd y trwyddedai'n gyfrifol am dalu Prifysgol Bangor am y costau atgyweirio.

(e) os achosir difrod i'r Mannau Cyffredin ac nad oes cytundeb rhwng y rhai sydd â hawl i ddefnyddio'r mannau yn gyffredin â'i gilydd mewn perthynas â i) phwy sy'n gyfrifol neu ii) thalu costau atgyweirio Prifysgol Bangor am yr hyn y difrodir, mae'r Trwyddedai'n cytuno y gall Prifysgol Bangor rannu'r costau'n gyfartal rhwng y rhai sydd â hawl i ddefnyddio'r Mannau Cyffredin ac y bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am y ganran berthnasol o'r costau atgyweirio.

(f) peidio â chadw unrhyw beth yn yr Eiddo a fyddai'n risg iechyd a diogelwch i'r Trwyddedai, unrhyw bobl sy'n ymweld â'r Eiddo neu unrhyw bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r Eiddo.

(g) peidio ag ymyrryd â larymau/synwyryddion carbon monocsid/mwg na'u tynnu o'r Eiddo.

(h) peidio â gadael i'r Eiddo fynd i gyflwr lle gallai achosi anaf i'r Trwyddedai neu unrhyw berson arall.

(i) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr Eiddo'n ddiogel a hysbysu Prifysgol Bangor os ydych am fod yn absennol o'r Eiddo am fwy na 7 diwrnod, trwy gofnodi ar wefan y Neuaddau pa ddyddiad yr ydych yn disgwyl ymadael â'r Neuaddau a'r dyddiad yr ydych yn disgwyl dychwelyd.

(j) bod yn gyfrifol am unrhyw allweddi a/neu gardiau coll ar gyfer yr eiddo a, lle bo'n berthnasol, unrhyw allweddi a/neu gardiau coll ar gyfer yr adeilad, a thalu Prifysgol Bangor am gost unrhyw rai newydd;

(k) peidio â pharcio cerbyd ar lwybr troed, croesfan, ymyl glaswelltog, neu ardal balmantog sy'n perthyn i Brifysgol Bangor na pharcio yn unrhyw le a fyddai'n rhwystro'r gwasanaethau brys neu'n achosi niwsans neu annifyrrwch i unrhyw berson arall.

(l) peidio â chadw anifail yn yr Eiddo.

(m) peidio ag ymyrryd ag offer diogelwch. Ni ddylech gadw drysau tân neu ddrysau diogelwch ar agor na'u hatal rhag cau'n iawn, na chaniatáu i ddieithriaid ddod i mewn trwy ddrysau diogelwch heb iddynt ddangos pwy ydynt.

(n) peidio â rhwystro neu adael unrhyw eitemau ar y grisiau, yn y lifft, yn y coridorau, yn y drysau, ar draws llwybrau, neu yn unrhyw rannau o'r adeilad a rennir.

(o) cydymffurfio â *Chod Ymddygiad Preswyl* Prifysgol Bangor a'r rheolau a'r rheoliadau mewn perthynas â'r grisiau cymunedol, y lifft, y coridorau, y drysau, y llwybrau, neu unrhyw rannau o'r adeilad a rennir a'r tir o'i amgylch, gan gynnwys rheolau sy'n ymwneud â pharcio cerbydau, cael gwared ar sbwriel a defnyddio llithrennau sbwriel.

(p) Lle mae'r Eiddo yn fflat sy'n ffurfio rhan o adeilad i beidio â gwneud y canlynol:

    (i) Taflu neu ollwng unrhyw beth o'r grisiau gan y gallai hyn achosi anaf neu ddifrod.

(q) peidio â gwneud unrhyw addasiad nac ychwanegiad i'r Eiddo.

(r) peidio â throsglwyddo, is-osod neu aseinio'r Drwydded.

3.2 Bydd y Trwyddedai'n darparu mynediad i'r Eiddo i Brifysgol Bangor, ei chontractwyr a'i hasiantau ar bob adeg resymol ar ôl i Brifysgol Bangor roi o leiaf 24 awr o rybudd

ymlaen llaw (ac eithrio mewn argyfwng lle mae’n rhaid darparu mynediad ar unwaith), er mwyn galluogi Prifysgol Bangor i wneud y canlynol:

(a) Archwilio cyflwr yr Eiddo.

(b) Cydymffurfio â’i rhwymedigaethau o dan Gymal 4.

(c) Cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol Prifysgol Bangor mewn perthynas â'r Eiddo.

(d) Gwneud gwaith atgyweirio, gwaith cynnal a chadw neu waith arall i'r Eiddo neu unrhyw eiddo cyfagos sy'n eiddo i Brifysgol Bangor

3.3 Mae’r Trwyddedai’n cytuno i roi gwybod yn brydlon i Brifysgol Bangor am unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol.

3.4 Mae’r Trwyddedai’n cytuno i’r canlynol:

(a) peidio ag ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i berson sydd â hawl (o ba bynnag ddisgrifiad) i fyw yn yr Eiddo, neu i fyw mewn eiddo neu lety arall yn ardal yr Eiddo.

(b) peidio ag ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i unrhyw un sy’n ymgymryd â gweithgaredd cyfreithlon yn yr Eiddo neu yn ardal yr Eiddo.

(c) peidio ag ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i Brifysgol Bangor neu i berson (boed yn gyflogedig gan Brifysgol Bangor ai peidio) sy'n gweithredu mewn cysylltiad â gweithredu swyddogaethau rheoli tai Prifysgol Bangor, ac sy’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol yn ymwneud â neu'n effeithio ar swyddogaethau rheoli tai Prifysgol Bangor.

(d) peidio â defnyddio na bygwth defnyddio'r Eiddo nac unrhyw ran o'r adeilad at ddibenion troseddol.

(e) peidio, drwy unrhyw weithred neu anweithred, â chaniatáu, cymell neu annog unrhyw berson sy’n byw yn yr Eiddo neu sy’n ymweld â’r Eiddo i weithredu fel y crybwyllwyd ym mharagraffau (a) i (c) o’r cymal hwn, na chaniatáu, cymell neu annog unrhyw berson i weithredu fel y crybwyllwyd ym mharagraff (d) o'r cymal hwn.

3.5 Mae’r Trwyddedai’n cytuno i dalu Prifysgol Bangor ar gais yr holl gostau rhesymol a delir gan Brifysgol Bangor o ganlyniad i unrhyw achos o dorri’r Drwydded hon gan y Trwyddedai, ac ymwelwyr.

3.6 Meddianwyr a ganiateir

(a) Ni chewch ganiatáu i unrhyw un arall fyw neu aros yn y llety ond gallwch ganiatáu i westeion aros dros nos (os yn “westeion”) yn y llety ar yr amodau canlynol:

(b) byddwch bob amser yn gyfrifol am ymddygiad unrhyw westai. Rhaid i chi sicrhau nad ydynt yn torri amodau'r drwydded hon a bydd unrhyw doriad ganddynt yn cael eu hystyried fel toriad gennych chi;

(c) rhaid i chi bob amser gydymffurfio â pholisi gwesteion dros nos y landlord a gellir dod o hyd iddo yn y llyfryn gwybodaeth am neuaddau yma: *https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol*;

(d) ni all unrhyw westai aros yn y llety am fwy na dwy noson mewn unrhyw gyfnod o wythnos;

(e) gall y landlord atal yr hawl i ganiatáu unrhyw westai neu westeion (boed yn unigolyn a enwir neu unrhyw westai o gwbl) gyda rhybudd o wythnos o leiaf neu ar unwaith mewn argyfwng, lle bo’n rhesymol.

**4. Rhwymedigaethau Prifysgol Bangor**

4.1 Bydd Prifysgol Bangor yn gwneud y canlynol:

(a) Cadw strwythur a thu allan yr Eiddo (gan gynnwys draeniau, cwteri, pibellau allanol) mewn cyflwr da.

(b) sicrhau bod y gosodiadau gwasanaeth sydd yn yr Eiddo (ar gyfer cyflenwad dŵr, nwy neu drydan, glanweithdra, gwresogi ystafelloedd, dŵr poeth neu Wi-Fi) yn gweithio’n iawn.

(c) Os mai rhan yn unig o’r adeilad yw’r Eiddo (y mae gan Brifysgol Bangor fuddiant cyfreithiol ynddo neu y mae’n berchen arno), bydd yn cadw strwythur a thu allan i unrhyw ran arall o’r adeilad mewn cyflwr da (gan gynnwys draeniau, cwteri a phibellau allanol) a chadw’r gosodiadau gwasanaeth sy'n gwasanaethu'r Eiddo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.

**5. Terfynu**

5.1 Bydd y Drwydded yn dod i ben ar y Dyddiad Terfynu, ac yn newid yn awtomatig i Gontract Meddiannaeth, oni bai ei bod wedi’i therfynu gan y naill barti neu’r llall yn gynharach o dan Gymal 5.2.

5.2 Gall y Drwydded feddiannu a roddwyd gan y cytundeb hwn ddod i ben:

(a) Trwy gytundeb rhwng y partïon; neu

(b) Gan Brifysgol Bangor os bydd y Trwyddedai yn rhoi'r gorau i breswylio yn yr Eiddo; neu

(c) ar ddiwedd dim llai na phedair wythnos o rybudd ysgrifenedig a roddir gan Brifysgol Bangor i'r Trwyddedai ar unrhyw adeg.

5.3 Yn amodol ar yr amodau canlynol, ar ôl i'r Trwyddedai gyrraedd 18 oed bydd Prifysgol Bangor yn rhoi Contract Meddiannu i'r Trwyddedai ar gyfer naill ai'r Eiddo neu eiddo arall addas sydd ar gael iddynt. Rhaid bodloni'r amodau canlynol cyn y bydd Prifysgol Bangor yn ymrwymo i Gontract Meddiannu:

(a) Nid yw'r Drwydded eisoes wedi dod i ben o dan Gymal 5.2.

(b) Ni chyflwynwyd unrhyw rybudd o dan Gymal 5.2; ac

(c) Mae'r Trwyddedai wedi talu'r Ffi Trwyddedu sy'n ddyledus o dan y Drwydded hon ac wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran y Drwydded hon.

## 6. Cyfraith lywodraethu

Bydd y cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu ei destun neu ffurfiad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghontractol) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n berthnasol yng Nghymru.

**Llofnod:** Mae'r Drwydded hon yn gyfreithiol-rwym rhyngoch chi a'r landlord. Drwy ddewis y blwch sy'n nodi "Rwyf wedi darllen a deall y telerau ac amodau uchod", nodi eich enw defnyddiwr a chlicio "Rwy'n derbyn", rydych yn cadarnhau eich bod yn derbyn telerau'r drwydded a'ch bwriad i ymrwymo i'r rhwymedigaethau hyn sy'n eich ymrwymo'n gyfreithiol.